

Hafan
 Pori
 Awduron A-Z
 Chwiliad testun rhydd
 Chwiliad testun rhydd

English



PDF
 Argraffu
 Cyfeirnodï

Linell Amser
 English

Hafan
 Pori
 Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

PARRY, ROBERT WILLIAMS (1884 - 1956), bardd, darlithydd prifysgol

Enw: Robert Williams Parry
Dyddiad geni: 1884
Dyddiad marw: 1956
Priod: Myfanwy Parry (née Davies)
Rhiant: Jane Parry (née Hughes)
Rhiant: Robert Thomas Parry
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, darlithydd prifysgol
Maes gweithgaredd: Addysg; Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Thomas Parry

Ganwyd 6 Mawrth 1884 yn Madog View, Tal-y-sarn, Sir Gaernarfon, yn fab i Robert a Jane Parry (y tad yn hanner brawd i **Henry Parry-Williams**). Cafodd ei addysg elfennol yn ysgol Tal-y-sarn, ac yna ysgol sir Caernarfon 1896-98, a blwyddyn yn ysgol sir newydd Pen-y-groes. Treuliodd dair blynedd, 1899-1902, fel disgybl athro. Aeth i Goleg y Brifysgol Aberystwyth yn 1902 ac ymadael yn 1904 wedi dilyn rhan o'r cwrs gradd a chael hyfforddiant fel athro ysgol. Bu'n dysgu mewn gwahanol ysgolion am dair blynedd, ac yn 1907 aeth i Goleg y Brifysgol, Bangor, i orffen cwrs gradd. O 1908 hyd 1910 bu'n dysgu Cymraeg a Saesneg yn ysgol sir Llanberis (ym Mryn'refail). Yna dychwelodd i goleg Bangor i weithio am radd M.A., a threulio rhai misoedd yn Llydaw, gan mai ' Some points of contact between Welsh and Breton ' oedd testun ei draethawd. Cafodd y radd yn 1912. Treuliodd un flwyddyn, 1912-13, yn ysgolfeistr yng Nghefnddwysarn, ac yna aeth i ysgol sir y Barri. Oddi yno yn 1916 i Ysgol Uwchradd y Bechgyn, Caerdydd, fel athro Saesneg. Bu yn y fyddin o Dach. 1916 hyd Rag. 1918. Dychwelodd i Gaerdydd, ond yn 1921 mynd i ysgol Oakley Park, Maldwyn, ac oddi yno yn nechrau 1922 i Goleg Bangor yn ddarlithydd hanner-amser yn yr Adran Gymraeg a hanner-amser yn yr Adran Allanol, ac yn y swydd honno y bu nes ymdeol yn 1944.

Gyda'r mesurau caeth y dechreuodd Williams Parry ei yrfa fel bardd, dan gyfarwyddyd dau wr oedd yn byw yn Nhal-y-sarn, sef Owen Edwards ('Anant'), chwarelwr, a H.E. Jones ('Hywel Cefni'), gwerthwr dillad. Byddai'r ddau yn cystadlu'n gyson ar gyfansoddi englynion yn yr eisteddfodau lleol, ac yn cyhoeddi'r cynnyrch yn y cylchgronau, yn arbennig y *Geninen*. Mor gynnar ag 1906 ysgrifennodd Williams Parry awdl ar y testun ' Dechrau haf ' ar gyfer cystadleuaeth yn Ffestiniog. Yn 1907 cystadlodd am gadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe gydag awdl ar ' John Bunyan ', ond colodd. Y flwyddyn wedyn enillodd gadair Eisteddfod Myfyrwyr Bangor am awdl ar ' Gantre'r Gwaelod '. Colli wedyn yr Eisteddfod Genedlaethol Llundain ar ' Gwlad y Bryniau ' yn 1909, ond ennill ym Mae Colwyn yn 1910 am ' Yr Haf ', un o awdlau mwyaf adnabyddus a phoblogaidd yr 20fed ganrif. Yr oedd pum awdl hir mewn pum mlynedd yn gynnyrch pur nodedig, ac ni fu byth wedyn yn hanes y bardd y fath weithgarwch cynganeddol â'r pum mlynedd hyn. Yn 1911 caed arwydd o ddatblygiad mydryddol tra gwahanol, sef anerchiad priodas i'w gyfaill G. W. Francis ar ffurf soned, a honno'n llawn cynganedd. Yn ystod Rhyfel Byd I ysgrifennodd amryw o sonedau, fel ' Pantycelyn ', ' Mae hiraeth yn y môr ', ' Cysur Henaint ', ' Gadael Tir ', a'r sonedau sy'n ymwneud â'r rhyfel yn uniongyrchol, fel ' Y Cantin Gwlyb ' a ' Y Drafft '. Ond cadwodd ei ddi-ddordeb yn y gynganedd, mewn englynion coffa i gyfeillion a chydnabod o bob gradd a dosbarth, ac yn arbennig i filwyr a laddwyd yn y rhyfel, fel y gyfres enwog i **Hedd Wyn** (Ellis Humphrey Evans).

Yr oedd y blynyddoedd rhwng y ddau rhyfel yn gyfoethog a thoreithiog. Yr oedd wedi ymdynghedu yn y soned ' Adref ' yn 1917 i gefnu ar gyfaredd yr oesoedd canol ac ymroi i bethau ' y dwthwn hwn '. Ond nid yn y trefi a'u diwydiant, eithr yn y wlad a'i heddwch a phopeth sy'n trigo ynddi, fel yn y cerddi ' Eifionydd ', ' Tylluanod ', ' Clychau'r gog ', ' Y Llwynog '. I'r un cyfnod y perthyn y gerdd ryfeddol honno ' Drudwyr Branwen ', sy'n corffori holl brif nodweddion gwaith y bardd - mydryddiaeth hynod grefftus, dychymyg grymus a sylwadaeth gyfrwys ar gyflwr dyn. At ddiwedd y cyfnod fe ddaeth tro ar arddull y bardd. Yr oedd wedi ymwrthod ag arddull foethus ' Yr Haf ' ers llawer blwyddyn, ond wedi cadw'n ofalus iawn y coethder hwnnw oedd, yn ei farn ef, yn nod amgen ar farddoniaeth. Ond dyma hepgor yr hen gonfensiwn (i raddau mawr o dan ddylanwad gwaith ei gefnder, **T.H. Parry-Williams**) a derbyn cystrawen foel a geirfa gyffredin rhyddiaith a'r iaith lafar. Enghraifft deg yw'r soned ' Gwenci '. Bu newid arall hefyd, newid yn ymateb y bardd i safonau ac i ymarweddiad dynion. Aeth i gondemnio materoliaeth yr oes ac ymroi i ddychfan ffyrnig. Y cymhelliad cychwynnol i'r ymateb hwn oedd yr hyn a ddiwyddodd i **Saunders Lewis** , sef colli ei swydd, ar ôl llosgi'r ysgol fomio yn Llŷn yn 1936. Defnyddiodd y bardd gyfrwng mydryddol newydd i beth o'r dychan hwn, sef soned â chorfannau tair sillaf wedi eu cymysgu â'r corfannau iambig traddodiadol.

Yr oedd Williams Parry yn dra hyddysg mewn barddoniaeth Saesneg, a dylanwadwyd arno gan gyfeithiau'r beirdd Rhamantaidd, John Keats yn arbennig. Yr oedd iddo lawer o gydnawsedd hefyd â beirdd Saesneg chwarter cyntaf yr ugeinfed ganrif, a gwelir cryn lawer o gyfatebiaethau rhwng ei ddelweddau ef a'r eiddynt hwy. Ond er pob dylanwad yr oedd sylwadaeth finiog y bardd, ei bersonoliaeth annibynol a'i ymdrafferthu cydwybodol â'i fynegiant yn creu corff o farddoniaeth a oedd yn dwyn ei nodweddion priod ei hun ac yn gyfraniad unigryw i lenyddiaeth Gymraeg. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth, *Yr Haf a cherddi eraill* yn 1924 (arg. newydd 1956) a *Cherddi'r gaef* yn 1952. Ceir nifer o gerddi y *Barddoniaeth Robert Williams Parry* (1973) gan T. Emrys Parry na cheir mohonynt yn y ddwy gyfrol.

Bu Williams Parry yn beirniadu llawer mewn eisteddfodau mawr a mân, gan gynnwys prif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol Nid condemnio a dangos beiau yn unig oedd beirniadu iddo ef, ond bod yn adeiladol a meithrin chwaeth. Cyhoeddodd rai ysgrifau mewn cyfnodolion ar grefft barddoniaeth, gan gymeradwyo'n arbennig bob ffurf ar farddoniaeth delynegol, a'r ddau fardd a ystyriai ef yn bencampwyr y delyneg, sef **Ceiriog** ac **Eifion Wyn**. Y mae yn ei ryddiaith ef ei hun nerth argyhoeddiad a hefyd grynfraethineb, ac o ran arddull ef yw un o ysgrifenywyr rhyddiaith gorau'r ganrif. Ceir detholiad o'i waith yn *Rhyddiaith R. Williams Parry* (1974) dan olygiath Bedwyr Lewis Jones.

Gwr gwylaidd iawn, swil yn wir, oedd Williams Parry, na chyrchai dyrfa ond yn anfodlon, eithr a ymhyfyrdai yng nghwmni gwir gyfeillion. Yr oedd yn genedlaetholwr argyhoeddedig ac yn gadeirydd pwyllgor sir Gaernarfon o Blaid Cymru am ysbaid, ond ni fu erioed ar flaen y gad, gan na fynnai ei weld na'i glywed ar goedd.

Priododd yn 1923 â Myfanwy Davies o Rosllannerchrugog, ond ni fu plant o'r briodas. Bu farw 4 Ionawr 1956, a chladdwyd ef ym mynwent Coetmor, Bethesda.

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonllau

Meredydd Evans, 'Golwg ar waith Robert Williams Parry', *Taliesin*, 27 (1972), 76-96

'Williams Parry: benthyciwr?', 39 (1979), 67-76

J. Gwilym Jones, *Crefft y llenor* (Dinbych 1977), 57-68

Alan Llwyd (gol.) *R. Williams Parry* (Abertawe 1979)

Bedwyr L. Jones, *Robert Williams Parry* (Caerdydd 1972)

R. Williams Parry (Caerdydd 1997)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **R. Williams Parry**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 57973432

Wikidata: Q7274124

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Parry, T., (1997). PARRY, ROBERT WILLIAMS (1884 - 1956), bardd, darlithydd prifysgol. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-PARR-WIL-1884>

Cyfrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government